



# Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru

25 Chwefror 2020

## 1. Crynodeb

Heddiw mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei [Chyllideb Derfynol](#) ar gyfer 2020/21. Mae'r gyllideb yn cyflwyno cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru am y 12 mis o fis Ebrill 2020 yn y meysydd o gyfrifoldeb sydd wedi eu datganoli, yn cynnwys iechyd, tai a gofal cymdeithasol.

Cyflwynwyd y Gyllideb Derfynol cyn Cyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar 11 Mawrth fydd yn cadarnhau'r grant bloc i Lywodraeth Cymru. Bydd CHC yn anfon manylion pellach yn dilyn Cyllideb y Deyrnas Unedig i gadarnhau unrhyw gyhoeddiadau atodol am y gyllideb.

Fel rhan o ymrwymiad Cartrefi Cymunedol Cymru i'n haelodau, rydym wedi gweithio i gasglu data o Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru, ystadegau allweddol a'n rhagolygon am effaith bosibl y Gyllideb Derfynol ar gymdeithasau tai yng Nghymru. Rhoddir crynodeb islaw o'r mesurau a



gyhoeddwyd yn y gyllideb sy'n uniongyrchol berthnasol i gymdeithasau tai, gyda manylion pellach drwy'r ddogfen.

## 2. Penawdau allweddol

- I gyflawni eu hymrwymiad o 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn nhymor hwn y Cynulliad (2016 – 2021), mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r ymrwymiad a wnaed yn y gyllideb ddrafft i fuddsoddi £223 miliwn mewn cartrefi fforddiadwy yn y flwyddyn ariannol nesaf, cynnydd o £133 miliwn ar ymrwymiau blaenorol.
- Fel y nodir yn y gyllideb ddrafft, cafodd y cyllid referniw ar gyfer y Grant Cymorth Tai ei warchod yn dilyn ein hymgyrch Materion Tai a gynhaliwyd ar y cyd gyda Cymorth Cymru a Cymorth i Ferched Cymru. Cawsom sicrwydd cadarnhaol y bydd y Grant Cymorth Tai yn faes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad pe byddai cyllid pellach ar gael i Gymru yn dilyn Cyllideb y Deyrnas Unedig ar 11 Mawrth 2020.
- Ynghyd â'r Gyllideb cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [Strategaeth Adeiladu Tai Cymdeithasol](#), sydd â ffocws sylweddol ar ddulliau adeiladu modern.

## 3. Ymateb CHC i'r Gyllideb

Mewn ymateb i gyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 dywedodd Katie Dalton, Cyfarwyddwr Cymorth Cymru, Stuart Ropke, Prif Swyddog Gweithredol Cartrefi Cymunedol Cymru ac Eleri Butler, Prif Swyddog Gweithredol Cymorth i Ferched Cymru:

*"Rydym yn siomedig na chafodd y Grant Cymorth Tai ei gynyddu yng nghyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21. Fodd bynnag, sylweddolwn y cafodd Llywodraeth Cymru ei rhoi yn y sefyllfa ryfedd o orfod cyflwyno ei chyllideb cyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig wneud ei chynlluniau gwariant yn glir.*

*"Cawsom ein calonogi gan sylwadau diweddar gan y Gweinidog Tai a'r Gweinidog Cyllid sydd wedi cydnabod y galwadau trawsbleidiol am fwy o fuddsoddiad ac y bydd y Grant Cymorth Tai yn flaenoriaeth ar gyfer cyllid ychwanegol o gyllideb y Deyrnas Unedig.*

*"Gwyddom fod gwasanaethau ar bwynt tyngedfennol, yn dilyn dros £37 miliwn o doriad gwir dermau dros y degawd diwethaf o lymder. Rydym yn annog*



*Gweinidogion Cymru i sicrhau fod y Grant Cymorth Tai ar flaen y rhes ar gyfer cyllid ychwanegol."*

#### 4. Dyraniadau allweddol llinellau cyllideb

<b>Llinell Cyllideb Gyfalaf</b>	<b>Cyllid 2019/20 (Cyllideb Atodol)</b>	<b>Cyllid 2020/21 (Cyllideb Ddrafft)</b>	<b>% newid 2019/20 i 2020/21</b>	<b>Cyllideb Derfynol 2020/21</b>
Grant Tai Cymdeithasol	£188.2m	£223.2m	19%	£223.2m
Help i Brynu Cymru	£62.1m	£68.5m	10%	£68.5m
Tir ar gyfer Tai	£10m	£10m	+/- 0%	£10m
Cronfa Gofal Integredig	£35m	£42m	20%	£42m
Adfywio	£28.6m	£51.8m	81%	£51.8m

<b>Llinell Cyllideb Refeniw</b>	<b>Cyllid 2019/20 (Cyllideb Refeniw)</b>	<b>Cyllid 2020/21 (Cyllideb Ddrafft)</b>	<b>% newid 2019/20 to 2020/21</b>	<b>Cyllideb Derfynol 2020/21</b>
Grant Cymorth Tai	£126.8m	£126.8m	+/- 0%	£126.8m



## 5. Manylion cyhoeddiadau cyllid

### Cyllid ar gyfer tai fforddiadwy

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eu dyraniad darpariaethol o £223 miliwn o gyllid cyfalaf yn y flwyddyn ariannol nesaf i gyrraedd eu targed o 20,000 o gartrefi fforddiadwy sy'n cynnwys Grant Tai Cymdeithasol (SHG).

Wrth ochr hyn, mae £68.5m yn llinell y gyllideb ar gyfer cronfa Help i Brynu Cymru a chynlluniau tai marchnad ychwanegol, fydd yn ariannu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno cartrefi Help i Brynu a'r model Rhent i Brynu fel rhan o'u hymrwymiad i ddarparu 20,000 o gartrefi yn ystod tymor hwn y Cynulliad.

### Effaith

Bydd cymdeithasau tai yn allweddol i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn nhymor hwn y Cynulliad, a rydym yn croesawu'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd heddiw fel hwb i sicrhau ein bod yn parhau ein cynnydd cryf i gyflawni'r targed hwnnw. Wrth ochr y cartrefi hynny a ddarperir drwy gyllid grant, mae cymdeithasau tai wedi cyflenwi – ar gyfartaledd – tua 25% o'u cartrefi fforddiadwy yng Nghymru yn flynyddol heb grant.

Croesawn y cynnydd mewn cyllid cyfalaf i adeiladu tai fforddiadwy yn y gyllideb hon. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gyflawni ein hymrwymadau yn ein cytundeb ar gyflenwad tai. Yn 2018/19, bu cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yn cydweithio i sicrhau'r nifer uchaf mewn 10 mlynedd o gartrefi fforddiadwy ychwanegol a ddarperir yng Nghymru, gan adael darparwyr tai cymdeithasol ar y llwybr i gyflawni ein hymrwymiad i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyrraedd eu targed o 20,000 o gartrefi.

### Grant Cymorth Tai

Yn dilyn ein hymgyrch Materion Tai, a gaiff ei rhedeg mewn partneriaeth gyda Cymorth Cymru a Cymorth i Fenywod Cymru, mae cyllideb heddiw wedi cadarnhau y gwarchodir y Grant Cymorth Tai ar lefelau 2019/20.



## **Effaith**

Yn ôl y disgwyl, cafodd y Grant Cymorth Tai ei gadw ar yr un lefelau ag yn y ddrafft gyllideb. Fodd bynnag, rydym yn obeithiol y bydd cyllideb nesaf Llywodraeth y Deyrnas Unedig – y disgwylir ei chyhoeddi ar 11 Mawrth – yn rhyddhau mwy o gyllid ar gyfer Cymru.

Yn dilyn ein hymgyrch genedlaethol a'ch ymdrechion gwych yn lleol, mae Aelodau Cynulliad o bob plaid wedi defnyddio'r ddadl ar y gyllideb ddrafft, cwestiynau i'r Gweinidog a datganiadau Llywodraeth Cymru i alw am gynnydd yn y Grant Cymorth Tai, Fel canlyniad, gwyddom fod y Grant Cymorth Tai yn awr yn flaenoriaeth ar gyfer cyllid ychwanegol, pe byddai hynny'n dod ar gael fel canlyniad i gynnydd mewn ymrwymadau gwariant yng nghyllideb y Deyrnas Unedig.

Bythefnos yn ôl cyfarfu Cymorth Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru a Cymorth i Ferched Cymru gyda'r Gweinidog Tai i drafod yr angen i gynyddu'r Grant Cymorth Tai. Ymatebodd y Gweinidog yn gadarnhaol, gan ddweud wrthym ei bod yn deall ein pryderon a bod tai yn flaenoriaeth pe byddai cyllid ychwanegol ar gael gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Byddwn yn parhau i wneud yr achos dros hynny yn yr wythnosau nesaf.

## **Cronfa Gofal Integredig**

Mae drafft gyllideb heddiw wedi cadarnhau y bydd y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer 2020/21 yn £42m, cynnydd/gostyngiad o £7m ar gyllideb y llynedd.

## **Effaith**

Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn cyllido prosiectau ar y cyd rhwng tai, iechyd a gofal cymdeithasol sy'n diwallu anghenion ystod eang o grwpiau, yn cynnwys pobl hŷn gydag anghenion cymhleth, pobl gydag anableddau dysgu, plant a gofalwyr. Mae hwn yn bot cyllid hanfodol ar gyfer alinio iechyd a gwasanaethau tai yn well a gall cymdeithasau tai ei gyrchu drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Gydag ychwanegu cynrychiolwyr tai ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, bydd mwy o gyfle i gymdeithasau tai ddylanwadu ar y cyllid hwn, a bydd CHC yn gweithio'n agos gydag aelodau sy'n cymryd rhan yn y Byrddau hyn i sicrhau y caiff gwybodaeth a gweithio partneriaeth ei rannu ar draws y sector.

## **Adfywio**

Mae cyllideb heddiw wedi cadarnhau £51.8m o gyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau adfywio yn y portffolio Tai a Llywodraeth Leol. Mae hyn yn gynnydd o £23.2m ar gyllideb y llynedd.



## **Effaith**

Mae'r cyllid adfywio yn rhoi cyfleoedd i gymdeithasau tai gyllido prosiectau adfywio cyfalaf yn 2020/21.